

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennol

Dyddiad y cyfarfod: 6 Tachwedd 2023

Teitl: Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd - diweddariad

Pwrpas yr adroddiad: Diweddaru'r Pwyllgor yn dilyn galwad y cyhoedd i fynegi diddordeb

Er: Gwybodaeth

Cefndir

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Pwyllgor ar 29 Mehefin 2023 wedi datrys:

"Gofyn i drigolion Cei Newydd drwy ddatganiad i'r wasg a chyswllt uniongyrchol ag ymgynghoreion penodol (tebyg i'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad cysylltiedig â'r penderfyniad hwn) a oes gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â safle'r Ymddiriedolaeth at ddibenion addysgol a cheisio cyllid grant at y diben hwnnw. Dyddiad cau ar gyfer rhoi ymatebion i'w roi mis o ddyddiad y datganiad i'r wasg/cysylltu. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor nesaf sydd ar gael."

1.2 Ar 10 Gorffennaf 2023 cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn unol â'r argymhelliad uchod a chysylltodd swyddogion yn uniongyrchol â'r sefydliadau canlynol i dynnu sylw at y datganiad i'r wasg:

- Cylch Meithrin;
- Cyngor Tref Cei Newydd;
- Ysgol Gynradd Cei Newydd
- Clwb Pêl-droed Cei Newydd;
- Neuadd Goffa Cei Newydd;
- Llyfrgell Gymunedol Cei Newydd;
- Partneriaid PSB.

Gosodwyd dyddiad cau ar 10 Awst 2023 ar gyfer datganiadau o ddiddordeb (EOIs).

1.3 Derbyniwyd pum EOI yn ystod y cyfnod hwnnw. Ers hynny mae un wedi tynnu eu EOI yn ôl ac roedd un EOI yn ymwneud â busnes masnachol felly nid yr hyn a ofynnwyd amdano gan yr ymddiriedolaeth. Derbyniwyd EOI ychwanegol wedi'r dyddiad cau hefyd, ond unwaith eto roedd hwn ar gyfer busnes masnachol.

1.4 Felly mae 3 EOI gweithredol ac mae swyddogion ar hyn o bryd wrthi'n trafod y rhain ymhellach gyda'r tair plaid. Bydd diweddariad llafar pellach ar gynnydd yn cael ei roi yng nghyfarfod y Pwyllgor.

1.5 Unwaith y bydd cynigion yn cael eu clirio, byddant yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor i benderfynu a yw'r Pwyllgor yn dymuno bwrw ymlaen ag unrhyw blaid a'i syniad ar gyfer defnyddio'r eiddo at ddibenion ymddiriedolaeth.

Argymhellion:

Bod y Pwyllgor yn NODI cynnwys yr adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniad:

I hybu gwrthrych yr ymddiriedolaeth elusennol

Atodiadau: Dim

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfreithiol

Swyddog Adrodd: Louise Harries: Uwch Gyfreithiwr – Annadleuol (Eiddo)

Dyddiad: 11 Hydref 2023